
**ADRAN A**

1. Sawl triongl sydd yn y siâp hwn?




a) 8 b) 10 c) 12 ch) 14 d) 16

2. Mae 2004 yn flwyddyn naid. Mae’n flwyddyn naid bob 4 blynedd. Sawl blwyddyn naid arall a fydd eto yn ystod y ganrif hon, gan gynnwys y flwyddyn 2100?

a) 21 b) 22 c) 23 ch) 24 d) 25

3. Dyma lun o ddarn o gadwyn mwclis Elin. Mae’r gadwyn yn cynnwys mwclis coch (C), glas (G) a melyn (M):





Mae’r lliwiau yn creu patrwm sy’n ailadrodd ar hyd y gadwyn. Mae’r gadwyn gyfan yn cynnwys 90 mwclis. Faint o’r mwclis sy’n felyn?

a) 4 b) 6 c) 15 ch) 30 d) 45

4. Cymedr pum rhif yw –5. Cyfanswm dau o'r rhifau yw 50. Faint yw cymedr y tri rhif arall?

a) -25 b) -10 c) 0 ch) 10 d) 25

5. Gwneir ciwb mawr o giwbiau llai. Mae sgwâr canol pob wyneb y ciwb mawr yn cael ei wthio trwy'r ciwb fel ei fod yn dod allan yr ochr gyferbyn. Sawl ciwb bach sydd ar ôl?



a) 26 b) 21 c) 20 ch) 18 d) 16

6. Mewn cynghrair pêl-droed mae tîm yn cael 3 phwynt am ennill, 1 am gêm gyfartal a 0 am golli. Mae tîm Aber wedi chwarae 12 gêm yn y gynghrair ac wedi cael 13 pwynt. Faint yw'r nifer lleiaf o gemau y gallant fod wedi eu colli?

a) 0 b) 1 c) 2 ch) 3 d) 4

7. Rhowch y rhifau hyn mewn trefn yn ôl eu maint. Pa un yw'r rhif canol?

a) 1/3 b) 3/10 c) 31% ch) 0.03 d) 0.303

8. Cyfaint ciwb yw $64cm^3$. Faint yw arwynebedd arwyneb y ciwb, mewn $cm^2$?

a) 8 b) 16 c) 24 ch) 32 d) 96

9. Faint yw'r ongl rhwng dau fys cloc am hanner awr wedi dau o'r gloch?

a) 100° b) 105° c) 110° ch) 120° d) 135°

10. Yn y dull Imperialaidd o fesur hyd:

Mae 12 modfedd mewn troedfedd
Mae 3 troedfedd mewn llathen
Mae 22 llathen mewn cadwyn
Mae 10 cadwyn mewn ystaden
Mae 8 ystaden mewn milltir

Sawl troedfedd sydd mewn ystaden?


a) 30 b) 660 c) 5,280 ch) 7,920 d) 63,360

11. Yng nghanolbarth America, rhwng y cyfnod 200 OC a 900 OC, datblygodd gwareiddiad y Maya drefn arbennig o gyfrif. Fel rhan o'r drefn honno roeddynt yn defnyddio

 i gynrychioli'r rhif '1'



 i gynrychioli'r rhif '5'



Dyma enghraifft o swm adio:



Yn nhrefn y Maya, beth yw'r ateb i'r swm dynnu hon?:




a)  b)  c) 

ch)  d) 

**ADRAN B**

1. Mae’r llun canlynol yn dangos rhwydwaith o strydoedd.





Gan ddechrau yn A, y gamp yw cyrraedd y corneli eraill.

Ar ben pob stryd rhaid mynd naill ai i’r **De** neu i’r **Dwyrain**.

Dim ond un llwybr sydd o A i B. Mae dau lwybr o A i C.

Mae 6 llwybr yn bosibl o A i D.


Gallwn nodi’r canlyniadau fel hyn:




Ceisiwch osod y rhifau cywir ar y corneli eraill.

Fedrwch chi weld patrwm? Disgrifiwch y patrwm.

2. Gan ddilyn symbolau’r Maya wrth gynrychioli rhifau (gweler cwestiwn 11 yn Adran A) lluniwch gymaint o symiau **tynnu** ag y medrwch sy’n rhoi’r ateb:



Atebion